# CYNGOR YR UNDEB
# SYNIADAU

WWW.UMABER.CO.UK
#NEWIDABER

12/10/2015

# IDEAS


Edits, Edits, Edits: Dogfennau Llywodraethu wedi'u Diweddaru 3

Cynyddu'r nifer o Ymddiriedolwyr Allanol 4


*If you require this booklet in an alternative format, please contact Dan Meehan via [union.democracy@aber.ac.uk](mailto:union.democracy@aber.ac.uk)*

# EDITS, EDITS, EDITS: DOGFENNAU LLYWODRAETHU WEDI'U DIWEDDARU

## Y Ffeithiau:

1. Mae gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth ddyletswydd cyfreithiol i fod â chyfansoddiad a dogfennau llywodraethu sy'n gosod allan yn eglur pam ein bod ni'n bodoli, yr hyn y gallwn ei wneud a sut rydym yn mynd i wneud hynny.
2. Mae'r Undeb wedi bod yn gweithio ar yr holl ddogfennau llywodraethu, ond mae angen i'r aelodaeth eu cymeradwyo cyn y gallant ddod yn realiti.

## Barn y Bobl:

1. Mae'r dogfennau llywodraethu ar eu newydd wedd yn diddymu biwrocratiaeth ddi-angen ac yn gwneud bywyd ychydig yn haws i'r Undeb fynd ati i weithio ar wneud bywyd yn well i chi.
2. Lleiaf yn y byd o amser y byddwn yn ei dreulio'n dilyn gweithdrefnau a gwirio'r llyfr rheolau, mwyaf yn y byd o amser sydd gennym ar gyfer siarad, ymgysylltu ac ymladd ar eich rhan chi.

## Y Datrysiad:

1. Bydd Cyngor yr Undeb yn derbyn y newidiadau ac yn pleidleisio i gymeradwyo'r dogfennau llywodraethu newydd fel y gallant ddod i rym cynted â phosib.

| | |
|---|---|
| Cynigydd: | Lewis Donnelly (Llywydd) |
| Eilyddion: | Ieaun Gregory (Swyddog Lles) |
| | Kelly Keat (Swyddog Gweithgareddau) |
| | Lauren Marks (Swyddog Addysg) |
| | Hanna Medi Merrigan (Materion Cymreig a Llywydd UMCA) |

# CYNYDDU'R NIFER O YMDDIRIEDOLWYR ALLANOL

## Y Ffeithiau:

1. Mae gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys 5 Swyddog Ymddiriedolwr, 2 Fyfyriwr Ymddiriedolwr a 3 Ymddiriedolwr Allanol.
2. Penodir y 3 Ymddiriedolwr Allanol ar sail eu harbenigedd a'u sgiliau, ac maent yn gwirfoddoli eu hamser rhydd i sicrhau bod yr Undeb yn gweithredu'n gyfreithlon ac yn gyllidol sefydlog.
3. Yn y flwyddyn a aeth heibio, mae strwythur pwyllgor newydd wedi cael ei sefydlu sy'n golygu fod y gwaith sydd angen ei wneud wedi cynyddu. Mae hyn yn golygu nad oes gennym ni bellach ddigon o Ymddiriedolwyr i wneud hynny.

## Barn y Bobl:

I. Mae'r ffeithiau yn siarad drostynt eu hunain, gyda'r 3 Ymddiriedolwr cyfredol yn gwirfoddoli eu hamser cyfyngedig a baich gwaith cynyddol, rydym angen mwy o bobl ar y Bwrdd.

## Y Datrysiad:

1. Cynyddu'r nifer o Ymddiriedolwyr Allanol o 3 i 5 a newid cymalau 48.3 a 58 yn ein Cyfansoddiad i ddarllen:
   a. "48.3 dim mwy na phum Ymddiriedolwr Allanol, wedi eu penodi yn unol â Chymal 58."
   b. "58 Caiff hyd at bum Ymddiriedolwr Allanol eu penodi drwy bleidlais fwyafrif syml gan y Pwyllgor Penodiadau. Ond ni ddaw penodiad o'r fath i rym oni ddilysir gan bleidlais fwyafrif syml mewn Cyfarfod.

Cynigydd: Lewis Donnelly (Llywydd)

Eilyddion: Ieaun Gregory (Swyddog Lles)

Kelly Keat (Swyddog Gweithgareddau)

Lauren Marks (Swyddog Addysg)

Hanna Medi Merrigan (Materion Cymreig a Llywydd UMCA)

WWW.UMABER.CO.UK
#NEWIDABER